

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Uwch Beiriannydd Archwilio

Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



DAVID COOIL
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.



# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**





# Teitl y swydd: Uwch Beiriannydd Archwilio

Ydych chi’n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth? Os felly, yna efallai mai’r swydd hon yw’r peth i chi. Rydym yn chwilio am **Uwch Beiriannydd Archwilio** i ymuno â thîm cyffrous sy’n tyfu.

**Cyflog:** PS2 (SCP 31-33) £39,186 - £41,418

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** **un or swyddfeydd isod;**

Parc Menai, Bangor neu Helygain

**Dyddiad cau:** 04/04/2024

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

## Pwrpas y swydd

Cynorthwyo'r Rheolwr Archwilio gyda phob swyddogaeth sy'n ymwneud â chyflwyno'r Gwasanaeth Archwilio a dirprwyo'n ffurfiol ar ran Rheolwr Archwilio'r Gogledd fel yr ofynol, cynrychioli'r Rheolwr Archwilio a gweithredu fel uwch swyddog, gan ymdrin â materion rheoli staff dydd-i-ddydd.

Cynorthwyo gyda rheoli'r ddarpariaeth ddiogel o Wasanaeth Archwilio Asedau Priffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru at ofynion deddfwriaethol a chynorthwyo'r Rheolwr Archwilio wrth drosglwyddo'r holl gofnodion archwilio a chynnal yn gywir a phrydlon o'r Asiantaeth i systemau data Llywodraeth Cymru.



# Cyfrifoldebau

**Swyddogaeth Archwilio**

- Dirprwyo ar ran y Rheolwr Archilio fel yr ofynol
- Cynorthwyo'r Rheolwr Archwilio i reoli archwiliadau arbenigol gan gynnwys, VRS Manwl, Archwiliadau Draenio a Geodechnegol ar y rhwydwaith priffyrdd yn unol â Llawlyfr Cynnal Priffyrdd Llywodraeth Cymru (WG-TRMM) a gofynion System Wybodaeth Ffyrdd Integredig (IRIS) Llywodraeth Cymru.

**Systemau ar gyfer Rheoli Asedau**

- Cynorthwyo'r Rheolwr Archwilio i reoli'r broses o fewnbynnu data sy'n deillio o Batrolau Diogelwch, ac Archwiliadau Draenio Arbenigol a Manwl i'r IRIS / RMS, gan gynnwys yr allbwn gan Dimau Archwilio darparwyr allanol. Cychwyn y broses o ddatrys unrhyw feysydd problemus TG.

**Swyddogaeth Cynnal a Chadw**

- Rheoli comisiynu a gweithrediad swyddogaethau cynnal a chadw sy'n gysylltiedig â'r mathau o asedau uchod sydd wedi'u rhaglennu, sy'n arferol ac sy'n rhagweithiol.
- Creu gwybodaeth Archebion Gwaith am ddiffygion gydag amcan fesur fel sy'n ofynnol gan y meddalwedd cofnodi data archwilio yn system IRIS.
- Rheoli atgyweiriadau diffygion categori a swyddogaethau cynnal a chadw arferol o fewn cyllidebau sydd ar gael ac o fewn cyfyngiadau arwynebedd ffordd.

**Swyddogaeth Rhestr Eiddo**

- Cynnal arolygon i greu gwybodaeth rhestr eiddo asedau gan fanylu ar asedau priffyrdd newydd a phresennol yn unol â Llawlyfr Cynnal Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru. Dylid cofnodi data'r arolwg ar IRIS.
- Cyfrannu at gynnal a chadw'r system gyfeirio rhwydwaith, gan gynnwys addasu, diweddaru a chreu tudalennau'r dogfennau cyswllt-adran-cainc (*link-section-node*). Adnabod ac adrodd am ddiffygion y ddogfennaeth neu'r system marcio ar y ffordd i'r Swyddog System Asedau.

**Gweinyddiaeth Dechnegol RMS (IRIS)**

- Cofnodi, dilysu, golygu ac uwchlwytho data archwiliadau ac arolygon i mewn i'r system IRIS, gan gynnwys data archwiliadau arbenigol. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth atodol ar gyfer cynhyrchu Archebion Gwaith Categori 1 (e.e. ffotograffau a mesurau rhagarweiniol).
- Darparu adroddiadau "diffyg heb ei ddatrys" a gwybodaeth atodol arall i'r Uned Weithredol yn ôl yr angen.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Archwilio gydag Adroddiadau Gweithredol neu Adroddiadau Asedau ad hoc yn seiliedig ar brosiect o arolygon, IRIS neu gronfeydd data eraill ar gyfer yr Uned Cyflawni ac Archwilio, yr Uned Fusnes, yr Uned Weithredol, Llywodraeth Cymru ac eraill.




## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i’r swydd

Yr ydym yn chwylio am berson sydd ar allu i weithio dan bwysau, gallu ysgogi staff ar bob lefel, gyda sgiliau trefnu da.  Gallu gweithio gyda goruchwyliaeth cyfyngedig, gallu blaenoriaethu a gweithio dan bwysau ar allu i arwain a rheoli staff iau.

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

Chwylio am berson sydd a HNC mewn pwnc peirianneg a phum mlynedd o brofiad yn y diwydiant NEU radd mewn Peirianneg

## Profiad perthnasol

Profiad o reoli archwiliadau ac/neu gynnal a chadw Priffyrdd, rheoli tîm a profiad o wneud defnydd gweithredol o systemau rheoli data

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

Tystiolaeth o sgiliau trefnu a’r gallu i weithio gydag ychydig iawn o oruchwyliaeth a’r gallu i flaenoriaethu llwythi gwaith sy’n cystadlu ar gallu gweithio ar ei liwt ei hun ac fel rhan o dîm. Y gallu i ddangos sgiliau rhyngbersonol o’r safon uchaf a’r gallu i ysgogi tîm, sgiliau cyfathrebu datblygedig iawn, ar lafar ac yn ysgrifenedig a creadigrwydd a sgiliau datrys problemau

## Gofynion ieithyddol

Mae’r gallu i siarad Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a

- 26 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio’n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.
- Oriau gweithio hyblyg.

- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o  wybodaeth ar  wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol

- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i’r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!

- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith

- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.